Yr Ymofynnydd

. . . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlviii. MAI, 1948. Rhif 5.

Y Gymdeithas Gyffredinol.

Y CYFARFOD BUSNES.

Cynhaliwyd yn Conway Hall, Llundain ar fore Mercher, Ebrill 20. Cynigiwyd penderfyniad gan Mr. Vaughan Lewis (Caergrawnt, gynt Pontypridd) yn cofnodi diolch y Gymdeithas i'r Parchedig L. Redfern (Lerpwl) am ei gyfarwyddyd i'n heglwysi yn ystod tymor ei swydd fel llywydd. Bu ei serchogrwydd yn galondid i'r eglwysi, ymhell ac agos, ac ar bob achlysur gadawodd argraff ysbrydol ddofn.

Derbyniwyd y penderfyniad yn wresog, a dywedodd Mr. Redfern ei fod yn cau'r bennod hon o'i fywyd gyda mesur o hiraeth : bu'n flwyddyn bwysig, ac yr oedd arno ddyled i lawer o ffrindiau am eu cyd-weithrediad, yn enwedig i'w gynulleidfa, i Dr. Rowe, ffrind cyson a chynghorwr doeth un llywydd ar ôl y llall, i'w wraig am y calondid a'r help a'i galluogodd i wneud y gwaith.

Wrth gynnig enw yr Athro F. J. M. Stratton, LL.D., F.R.S. fel ei olynydd, dywedodd Mr. Redfern y gallai gyflwyno cyfrifoldeb y swydd gyda phob ymddiried i ŵr lleyg mor athrylithgar ac mor ffyddlon. Wrth ei arwisgo ag arwydd y llywydd, dywedodd Mr. Redfern, "Rhodded Duw i chwi lawenydd ac anturiaeth dda."

Wedi iddo fynegi ei ddiolch am yr anrhydedd, cymrodd yr Athro Stratton yn destun i'w araith o'r gadair eiriau un o'r gwyddonwyr. "Wisely used, the most pervasive faith in the world, *the religion of the pursuit of truth for its own sake*, may be the most potent instrument of reconciliation and reconstruction. Thus we may help to lead the nations into amity and the prosperity which flows from long-continued peace." Wrth fanylu ar fater ei destun, pwysleisiodd frawdoliaeth y gwyddonwyr ledled y byd. Ni welir yr un ysbryd brawdol ymhlith crefyddwyr. Gwerth ystyried yn ddwys ei eiriau ar ystyr goddefgarwch crefyddol. "Toleration does not imply indifference. It should not prevent our putting forward our own views strongly and clearly. There are two things we cannot afford to be tolerant of, and they are intolerance and

tyranny. These we must fight through thick and thin, lest tolerance and liberty be killed. It is an unending battle, and we may have to bear our share of it as our fathers did before us.

With the years the field of battle shifts, but ultimately the battle remains the same.

"We may think our fathers' thought ;
Their creeds our lips may alter ;
But in the faith they dearly bought
Our hearts shall never falter."

"Great is the Truth and shall prevail," said Stevenson's Norse priest, as he shouldered his axe and went off to die with Odin. But truth does not prevail by itself. It needs the support and active backing of those who see it. No new knowledge becomes current without the active, and generally prolonged, support of those who have recognised its truth. No battle for liberty is won without the sustained effort of its followers."

Etholwyd y Parchedig Fred Cottier (Gorton) yn is-lywydd.

Cyflwynwyd yn ffurfiol gan yr ysgrifennydd, Dr. Mortimer Rowe, yr adroddiad am waith Cyngor y Gymdeithas. Wrth gyflwyno'r cyfrifon ariannol cymharodd y trysorydd, Mr. Ronald P. Jones, sefyllfa'r Gymdeithas a sefyllfa'r genedl. Y mae bwlch rhwng y "dadforion" a'r "allforion", a'r "Apêl am y Can Mil" yw ein "Marshall Aid". Am y diffyg ni cheisiai ymddiheuro—daeth yr awr i ni lydanu'r gwaith. Yr oedd lleihad yn y tanysgrifiadau, ond yr oedd casgliadau'r eglwysi'n uwch. Mynegodd ei foddhad fod Mrs. Sydney Martineau wedi agor yr "Essex Hall Rebuilding Fund" drwy ei chyfraniad cyntaf o £200.

Siaradodd y Parchedig G. C. G. Grieve (Highgate, Llundain), cadeirydd yr Unitarian Service Committee, am y cydweithrediad rhwng y pwyllgor hwn a'r American Unitarian Service Committee i sefydlu'r Hana Benes Unitarian Home i blant yn Czechoslovakia, a mynegodd hefyd ddyled y pwyllgor i Miss Ruth Cusack, cynrychiolydd y pwyllgor yn y cartref. Y mae'r digwyddiadau diweddar yn rhwystr i ethol olynydd iddi, ond teimlai ef—a chytunai'r siaradwyr eraill ag ef—yr anghenraid o gadw'r cyswllt personol â Czechoslovakia.

Mynegodd y Parchedig Stewart Carter (Caergrawnt) werthfawrogiad y Gymdeithas o wasanaeth mawr y Parchedig E. Rosalind Lee (Stourbridge) i'r Drysorfa tuag at Blant y Ffoaduriaid, cyfrifoldeb sydd yn awr wedi cyrraedd ei amcan.

PENDERFYNIADAU AR FATERION CYHOEDDUS

Trafodwyd dau benderfyniad, un ar ran Cyngor y Gymdeithas yn ymwneud â rhyddid personol, y llall ar ran y Gymdeithas Heddwch yn ymwneud â'r sefyllfa rhyngwladol. Methwyd â chytuno ar ystyr bendant broddegau'r ail benderfyniad, a phasiwyd

gyda mwyafrif i beidio â phleidleisio ar y mater. Rhoddir y penderfyniad cyntaf fel y'i derbyniwyd, heb ymgais i drosi'r geiriau :—

> "That this Annual Meeting of Ministers and Delegates, deeply concerned at the fact that the fundamental principles of personal freedom are being violently and progressively attacked in the modern world, reaffirms the unalterable conviction that these principles are vital to all human well-being and progress."

* * * *

Rhoddwyd amser y prynhawn i drafod yr "Apêl am y Can Mil". Dywedodd Mr. Ronald Bertram, cadeirydd Pwyllgor yr Apêl, ei fod yn ddyn siomedig : ni chyrhaeddwyd y swm. Er hynny ymfalchiai fod y ffigur yn uwch na'r un a gyrhaeddwyd erioed gan ein heglwysi, £95 yn brin o £95,000. Diolchodd i bawb a wnaeth y peth yn bosibl, yn enwedig i'r trysorydd, Mr. H. B. Moore, ac i'r ysgrifennydd, y Parchedig John Kielty. Y mae Mr. Kielty yn haeddu pob tamaid o'i gyfran helaeth o'r clod.

Dywedodd Mr. Moore fod ei swydd fel trysorydd wedi eangu cylch ei adnabod. Rhif y tanysgrifwyr dan gyfenant oedd 429, a swm eu cyfraniad yn £34,061. Gwariwyd eisoes £19,752. Y mae £41,000 ar deposit. Sylweddolwyd drwy gasgliad y Cwrdd Pregethu Blynyddol, ynghyd â'r casgliadau wrth y drws yn yr eglwysi y dydd Sul blaenorol, y swm o £428 : 11 : 1. Cydnabyddid haelfrydedd cymorth yr eglwysi. Diddorol gwybod pa eglwysi sydd ar y blaen : Ullet Road, Lerpwl, £4,850 ; Capel Mill Hill, Leeds, £4,572 ; Knutsford, £3,850 ; Church of the Messiah, Birmingham, £3,732. Pwysleisiodd Mr. Moore wasanaeth mawr Mr. Kielty, a diolchodd i'r trefnwyr a'r trysoryddion lleol.

Dywedodd y Parchedig John Kielty, ysgrifennydd Pwyllgor yr Apêl, fod tua deuddeg mil wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Yr oedd yr eglwysi i gyd wedi danfon rhywbeth, ni chyrhaeddodd rhai y disgwyliadau, ond yn y mater hwn bydd yn dda i ni gofio nad oes gan yr un ohonom wybodaeth gyflawn am ffeithiau'r sefyllfa. Prawf y cyfan fod swm anferth o ewyllys da yn ein cyfundeb. Diolchodd i'w gynorthwywyr a fu gydag ef drwy'r fenter. "Prynasom werth £95,000 o amser—amser i drefnu ein tŷ. Oni chreir yr ymdeimlad o berthyn i gyfundeb, bydd llawer yn diffygio."

Llefarodd eraill eu llongyfarchion, a dywedodd yr Athro Stratton na allai'r Gymdeithas lai na gwerthfawrogi'n fawr iawn wasanaeth Pwyllgor yr Apêl. Dymunid dangos hynny'n weledig—ond ni ellid gosod arwyddion y diolch ar y llwyfan. Rhoddwyd i Mr. Moore "an 1810 mahagony secretaire" ac i Mr. Kielty y modur a'i galluogodd yn ddiweddar i deithio cymaint ar waith yr Apêl.

Wedi i'r ddau siarad geiriau cymwys, diweddwyd cyfarfod blynyddol nodedig iawn.

Pregeth.

[Pregethwyd gan Dr. Frederick May Eliot, Llywydd Cymdeithas Undodaidd America, i gynulleidfa fawr yng Nghapel Rosslyn Hill, Hampstead, Llundain, nos Fawrth, Ebrill 13, ar achlysur cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Gyffredinol.]

" . . . i'n cydgysuro yn eich plith drwy'r ffydd sydd yn y naill a'r llall, yr eiddoch chwi a'r eiddof finnau."—*Rhufeiniaid I, 12.*

Bron yn ddamweiniol, yn y geiriau tawel hyn ar ddechrau'r llythyr a adwaenir fel yr Epistol at y Rhufeiniaid, cyhoedda Sant Paul egwyddor o'r pwysigrwydd pennaf i bawb sy'n credu mewn eglwysi, yn enwedig yn y dyddiau anodd hyn. Dyma'r egwyddor ; mai'r ffordd sicraf, ar wahan i ras Duw, i adnewyddu a meithrin gwroldeb yw darganfod a chydgyfranogi o ffydd ein gilydd, yn unigol neu mewn grwpau. Gwroldeb yw ffrwyth naturiol y ffydd a deimlir mewn cyfeillach.

Yn y blynyddoedd diwethaf ar lawer adeg gyfyng gwelodd y cenhedloedd sy'n siarad yr iaith Saesneg wirionedd a gwerth yr egwyddor hon. Ddwywaith yn awr, o fewn un cenhedlaeth, safasom gyda'n gilydd fel cynghreiriaid mewn rhyfel yn erbyn bygythion y gorthrwm totalitaraidd er mwyn amddiffyn gyda n gilydd y gwerthoedd a ddysgodd y bobloedd rhyddion eu hystyried yn bennaf—rhyddid, democratiaeth, gweddeidd-dra cyffredin bywyd, y syniad o anrhydedd; a thrwy'r profiadau hyn darganfuasom fel y mae gwroldeb dynion yn tyfu trwy iddynt bwyso ar ffydd ei gilydd.

Tybed a sylweddolwch yn llwyr ym Mhrydain gymaint yr adgyfnerthwyd ac y gwnaethpwyd yn anhyblyg ffydd yr Americanwr mewn rhyddid gan eich ffydd chwi. Dysgasom bwyso mewn ymddiried llawn ar eich ffyddlondeb trylwyr a'ch dewrder—a n meddyliau araf ninnau'n hir, hyd yn oed, cyn cyrraedd yr unig gasgliad—pan safasoch yn ddiysgog yn erbyn yr hyn a ymddangosai yn aruthrol drech na chwi ; a gwyddom pe codai angen gyffelyb rywbryd yn y dyfodol ni phallai eich ffydd.

Dymunaf heno gymhwyso'r egwyddor a geir yng ngeiriau'r Apostol at y berthynas rhwng y ddau gorff o eglwysi rhyddion a gynrychiolir yma yn yr eglwys brydferth hon,—y Gymdeithas Gyffredinol a gynrychiolir gan y gynulleidfa ragorol hon, a Chymdeithas Undodiaid yr America, a gynrychiolir nid yn unig gennyf fi yn rhinwedd fy swydd ond hefyd, da gennyf ddweud hynny, gan unigolion o'n heglwysi yng Nghanada. Atgofir ni gan eu presenoldeb fod Cymdeithas Undodiaid yr America yn rhyngwladol,

oherwydd y mae, ac am flynyddoedd y bu, eglwysi Canada yn aelodau cyflawn o'r Gymdeithas fel eglwysi'r Unol Daleithiau.

Am 123 o flynyddoedd nerthwyd y ddau grwp hwn o eglwysi yn eu defosiwn i achos crefydd rydd gan y wybodaeth eu bod yn gyfrannwyr o'r un etifeddiaeth, iaith, traddodiad, gweledigaeth proffwydol, a gallu ysbrydol. Sylfaenwyd ar yr un dydd yn 1825, er na wyddai'r un Gymdeithas ar y pryd beth a ddigwyddai'r ochr draw i'r Atlantig ; meithrinasant oddiar hynny deimlad byw o'u cyfeillgarwch a gwybodaeth hapus am ei gilydd ac am eu hymdrechion. Heb unrhyw ymgais fwriadol i'r cyfeiriad hwnnw, calonogwyd pob un yn eu cylchoedd gwahanol gan ffydd ei gilydd.

Heddiw, beth bynnag, daeth gwerth calondid y naill a'r llall yn fwy amlwg ac yn fwy pwysig ; a chredaf fod yr amser wedi dod i ymdrechu'n fwriadol, a bod yn ddiwyd i ddatblygu ein cyfeillgarwch traddodiadol yn rhywbeth mwy na chynghrair cydweithredol.

Yn siarad o safbwynt yr Americanwr, gadewch imi ddweud yn ddigêl am ein hangen o'r cadernid a fyddai'n dod i ni o bartneriaeth agosach a mwy effeithiol a'n brodyr Undodaidd yn yr Ynysoedd Prydeinig. Yn wir, f'amcan pennaf wrth dderbyn eich gwahoddiad gwresog i'ch Cyfarfod Blynyddol oedd mynegi'n uniongyrchol i chwi fy ngobaith dwys y bydd inni o hyn ymlaen cydgerdded gyda'n gilydd, cydweithredu gyda'n gilydd, addoli gyda'n gilydd mewn cyfeillach dynnach, a fydd yn sicr o roi i ni —a gobeithiaf, i chwithau hefyd—y calondid y mae cymaint o angen amdano ar bobun sy'n ceisio cynnal crefydd rydd, ac eglwys rydd, heddiw mewn byd sydd wedi colli i raddau helaeth ei ymddiried mewn rhyddid ac wedi cefnu ar y gobaith o wneud democratiaeth yn wasanaethgar i anghenion sylfaenol dyn. Y mae arnom heddiw angen ein gilydd yn fwy nag erioed, i nerthu ein gilydd yn erbyn grym y dyranniaeth sy'n codi—gartref ac oddicartref—ac yn ein dyledswydd bositif i feithrin ysbryd rhyddid ym mhob man trwy ddangos y gall dynion rhydd greu trefniant cymdeithasol gweddus yn fwy cyflym, yn fwy parhaol na'r dynion sy'n gwerthu rhyddid am addewidion gweigion diogelwch presennol ac elw.

Fel Undodiaid, o ddau tu'r cyfanfor, yr ydym heddiw'n fwy ymwybodol nag yr oeddem genhedlaeth yn ôl o'r llinnell gul sy'n rhannu ein rhyddid traddodiadol i grefydda a mynegi ein crefydd oddiwrth y slafdod meddwl ac enaid i wladwriaeth dotalitaraidd. Fel Undodiaid, unigolyddion ydym. Plannwn yr awdurdod terfynol yng nghydwybod y dyn unigol. Cadarnhawn ein cred ganolog ym mhenarglwyddiaeth yr enaid unigol. Credwn fod yr holl werthoedd y gwyddom amdanynt ym mhrofiad dyn yn canoli mewn personoliaethau unigol. Profwn bob sefydliad—cymdeithasol, gwleidyddol, eglwysig—wrth ei ddefnyddioldeb i gadw ac ychwanegu at y gwerthoedd sy'n bodoli fel gwerthoedd yn unig pryd y

ceir hwy mewn personoliaeth. Gwrthodwn adael i un ddadl, pa mor resymol bynnag yr ymddengys a pha mor gadarn bynnag y'i pleidir gan awdurdod allanol, anrheithio gwerth neilltuol ac anniddymol enaid dyn. Dyma garreg sylfaen ein ffydd, yr amddiffynfa eithaf na feiddiwn ei rhoi i fyny.

Ni chredaf fy mod yn fy anian yn daenwr newyddion drwg, ond ni allaf osgoi'r argyhoeddiad fod y math o grefydd rydd y credwn ni ynddi heddiw mewn perygl mawr. Y mae hyn yn wir yn yr Unol Daleithiau lle y mae llanw awdurdodaeth grefyddol yn codi'n gyflym gyda grym ychwanegol, a lle y mae'r athrawiaeth draddodiadol am wahaniad yr eglwys oddiwrth y wladwriaeth yn gorfod wynebu'n barhaus ymosodiadau cyfrwys. Yr ydym ni'n yr Unol Daleithiau mewn perygl difrifol o golli'r rhyddid crefyddol a gysylltir ag enw Thomas Jefferson, ac y mae arnom angen adgyfnerthu ein ffydd yn syniadau ac egwyddorion y rhyddid Prydeinig.

Yn yr Unol Daleithiau, beth bynnag, tanseilir sefyllfa draddodiadol crefydd rydd ar faes Diwinyddiaeth ac ar faes polisi eglwysig. Y mae dyfodiad yr iawnffyddiaeth newydd, a gysylltir yn bennaf ag enw Reinhold Niebuhr, yn herio athrawiaeth crefydd rydd am natur a thynged dyn ; ac y mae'r safbwynt hwn yn cael derbyniad mawr—nid rhyw lawer ymhlith Undodiaid ond ar radd fawr iawn ym mhlith yr eglwysi sydd agosaf atom yn nhermau meddwl rhyddfrydig. Yn arbennig y mae hyn yn wir am lawer o'r gweinidogion ieuengaf a'r mwyaf galluog yn yr eglwysi hynny a *oedd* yn amlwg am eu sefyllfa fodernaidd, os nad rhyddfrydig. Am y tro beth bynnag y mae'n bendant fod crefydd rhydd-ymofynnwyr maes o ffashwn ac yn gorfod ei hamddiffyn ei hun.

Y mae felly hefyd parthed y traddodiad am annibyniaeth eglwysig, a gysylltir gennym yn yr America a'r term "Cynulleidfaolaeth," ac ar y syniad i raddau helaeth y sylfaenir y syniad Americanaidd am ddemocratiaeth. Am dri chan mlynedd, gan ddechrau yn Lloegr Newydd ac ymestyn allan dros hyd a lled y tir, bu'r traddodiad yn ganolog nid yn unig ym mywyd yr eglwysi rhyddion, yn dwyn amryw lablau enwadol, ond hefyd ym mywyd y wladwriaeth ddemocrataidd. Heddiw fe'i herir o wahanol gyfeiriadau, ac y mae llawer o'r rheini sy'n gwerthfawrogi fwyaf ei werth hanesyddol parhaol mewn dygn boen rhag ofn y collir ef drwy'r hyn a gredir sy n ddymuniad dros amser am drefnu mwy "effeithiol."

Gadewch i mi eich adgofio mai siarad yr wyf am sefyllfaoedd yr Americanwr, er y credaf y gwelir rhywbeth tebyg ym Mhrydain.

Ond y mae rheswm arall, mwy pwysig, paham y dylem yn awr gydgerdded mewn cyfeillach agosach. Y mae arnom eisiau ein gilydd er mwyn amgeleddu gyda'n gilydd ein hetifeddiaeth o ryddid a ffydd, ond y mae arnom eisiau ein gilydd hyd yn oed yn fwy er mwyn cyflawni ein cenhadaeth i'r byd presennol, angenraid gyffredin arnom.

Byd wedi blino yw ein byd ni—a'r angen pennaf heddiw yw clywed y llais proffwydol yn cyhoeddi eto nodyn yr ymddiriedaeth fawr a glywyd bob amser pan bydd gwir grefydd yn llefaru. "Y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r anwastad yn wastadedd. A gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir, a phob cnawd ynghyd a'i gwel." "Yr addfwyn a etifedda y ddaear." "Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn?" "Iawn yw iawn, a Duw yw Duw, a iawn a ennill y dydd."

Trawyd nodyn yr ymddiriedaeth fawr yn llinellau Thomas Hardy :—

In our heart of hearts believing
Victory crowns the just,
And that braggarts must
Surely bite the dust,
Press we to the field ungrieving,
In our heart of hearts believing
Victory crowns the just.

Trawyd yr un sicrwydd yn y llinellau a ysgrifennwyd yn nyddiau tywyll ymdrech gynharach ar dir America.

I have read a fiery gospel writ in burnished rows of steel,
As ye deal with my contemners, so with you my grace shall deal;
Let the hero born of woman crush the serpent with his heel;
Since God is marching on!

Dyna'r nodyn y mae ei eisiau heddiw. Dyna'r ymddiriedaeth fawr y dylasai crefydd gyhoeddi yn yr awr hon. Ni ddaw o'r eglwysi sydd heb ffydd yng ngallu dyn "i unioni llwybr i'n Duw ni yn y diffeithwch." Ni all ddod o eglwysi awdurdod. Dylasai ddod o'n heglwysi ni gyda sain yr utgorn na all byth seinio gwrthgiliad. Dyna'n cenhadaeth. Dyna'n galwad. Dyna'n cyfle digymar. Ein tasc yw trawsnewid breuddwyd yn blan i weithredu arno . . .

I wneud hyn, y mae eisiau cyfeillach newydd, dyfnach, rhwng yr eglwysi rhyddion ymhob man, gan ddechrau gyda'n dwy Gymdeithas. Nid dyma'r adeg i *drafod planiau* ymarferol er mor bwysig ydyw hynny. I'r *tasc* hwnnw rhaid i ni roi ein sylw ar unwaith, yn egniol.

Ond heno gallwn, os mynnwn, gydnabod yr angen a phenderfynu ei chyfarfod. Yma ac yn awr gallwn benderfynu ymuno â'n gilydd i gydweithio yn y blynyddoedd sy'n dod, fel yr adnewyddir ac adgyfnerthir ein gwroldeb trwy ffydd ein gilydd.

Dadorchuddio Meini Coffa.

CAPEL Y GRAIG, TREBANOS.

I GYFARFOD arbennig nos Sul, Chwefror 29, wedi'r gwasanaeth arferol daeth ynghyd gynulleidfa gref i dalu parch i goffa'r ddau aelod ifanc a gollodd eu bywydau yn Rhyfel 1939-1945, ac hefyd i goffa cyn-weinidog eglwys Gellionnen a'r Graig.

Darllenwyd yr Ysgrythur gan y gweinidog ; gweddïwyd gan y Parchedig Lewis Morgan ; yn ei anerchiad cyfeiriodd y gweinidog at rai o'i atgofion hyfryd iawn am y ddau fachgen, dau aelod o'i ddosbarth yn yr Ysgol Sul, dau gydymaith mewn bywyd. Yn eu ffyrdd heddychlon clymwyd arnynt faich drygioni byd, ac o glydwch aelwydydd tawel hyrddiwyd hwy i gerdded llwybrau dioddefaint, llwybrau a baratowyd gan hiliogaeth creulonder a nwyd. Cyfeiriodd y gweinidog hefyd at ddylanwad a gwaith ei ragflaenydd yn y pulpud. Gorffennwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Parchedig Daniel John, Gosen. Canwyd yn y gwasanaeth emyn Alva, "Di, Oleuni glân y bywyd . . . ," emyn Glan Geirionnydd, "Mae'n hyfryd meddwl ambell dro . . . ," ac emyn Banos, "Mi welaf ddyddiau gwych yn dod . . . "

Tynnwyd y llen oddiar faen coffa'r bechgyn gan Mrs. J. O. Morgan, Pontardawe, a thynnwyd y llen oddiar faen coffa'r Parchedig D. G. Rees gan Mrs. Alwyn Morris, Ynystawe. Oherwydd amgylchiadau neilltuol penderfynodd y gynulleidfa osod meini coffa newydd yn lle'r ddau a oedd eisoes yn y capel, un yn coffhau'r tri bachgen a gollodd eu bywydau yn Rhyfel 1914-1918, a'r llall yn coffhau'r Parchedig T. J. Jenkins. Wrth dynnu'r gorchudd oddiarnynt dywedodd y gweinidog i'r gwasanaeth hwn gael ei gyflawni mewn gwirionedd prynhawn Medi 9, 1923 gan y diweddar Mr. J. J. Williams a Mrs. T. J. Jenkins (yn awr, yng (Nghaerdydd).

Ar faen coffa'r bechgyn darllenir—

1939—1945

I GOFIO'N ANNWYL

AM YR AELODAU A GOLLODD EU

BYWYDAU YN Y RHYFEL BLIN

VERNON LLEWELYN BOWEN JONES

WILLIAM KENNETH MORGAN

Eu byw, yn atgof melys ;
Fu marw, yn hiraeth dwys.

Ar faen coffa'r cyn-weinidog darllenir—

ER COF ANNWYL AM Y
PARCH. D. G. REES
GWASANAETHODD EGLWYS GELLIONNEN A'R GRAIG O EBRILL 1912 HYD FEHEFIN 1930
GANWYD MAI 15, 1865
BU FARW GORFFENNAF 17, 1934

Gweinidog Iesu Grist, yn ber ei barabl, a'i lafur a erys.

* * * *

Collodd Flying Officer VERNON LLEWELYN BOWEN JONES, R.A.F., 33, Faraday Road, Clydach, ei fywyd mewn cyrch awyr yn ystod nos Chwefror 23-24, 1944. Claddwyd ym mynwent Marly-sur-Seille, gerllaw Metz, Ffrainc. Ganwyd Gorffennaf 1, 1921. . .

Collodd Driver WILLIAM KENNETH MORGAN, R.A.S.C. 1, Morgan Street, Trebanos, ei fywyd yn y mor ar Fedi 12, 1944, pan suddwyd llong o garcharorion yn hwylio o Siam i Japan. Carcharwyd ef pan gwympodd Singapore. Ganwyd Mai 22, 1918. . . . . .

Yn ei anerchiad dywedodd y Parchedig J. D. Jones :—

Yn y cwrdd hwn heno y mae cynulleidfa Gellionnen a'r Graig yn mynegi ar farmor gwyn ei gwrogaeth i goffa dau aelod a gollodd eu bywydau yn y rhyfel blin—Vernon Llewelyn Bowen Jones a William Kenneth Morgan. Gyda hwy coffheir am gyn-weinidog yr eglwys, David Gwenog Rees.

Galw'r gorffennol yn ôl—dyna wnawn ni heno, a chydnabyddwn fod y cof ymhlith y cynheddfau gwerthfawrocaf a berthyn i anian dyn, ac eto y mae'r cof yn beth na ellir dibynnu'n drylwyr arno. Y mae ganddo ei ffordd ei hun i liwio'r gorffennol, oherwydd mai peth personol ydyw, ac y mae gwahaniaeth rhwng atgofion un ag atgofion arall. Am ryw un dyn neilltuol y mae chwech o ddynion yn rhoi ar lawr eu hatgofion. Pan gymharir eu coffadwriaeth gwelir fod ganddynt chwe darlun gwahanol o'r un dyn. Cofiwn y pethau hynny yn y gwrthrych sydd yn apelio atom ni. Yn unol â thueddiadau ein hanian y dewiswn ein hatgofion. Ymhob atgof, felly, sydd gennym am y tri hyn y mae rhywbeth ohonom ni ein hunain yn treiddio i mewn.

Pe gofynnid i chwi heddiw yn un ac yn un pa nodwedd neilltuol sydd yn eich coffadwriaeth am Mr. Rees, y gweinidog, byddai'r atebion i raddau helaeth yn gwahaniaethu. Byddai un yn cofio serchogrwydd ei wên ; arall yn cofio miwsig ei lais a rhwyddineb ei lafar. Cofiai un arall am ei brydlondeb yn y cyfarfodydd a'i ffordd deidi i gyflawni ei orchwylion. Cofiai un arall am ei ollyngdod ysbryd wedi iddo drethu ei gorff i'r eithaf mewn oedfa angherddol. Byddai arall yn ei gofio fel yr ysgrifennodd un o blant gwasgaredig yr eglwys hon ataf yr wythnos ddiwethaf, yn ei gofio am y parch a delid iddo ar aelwyd ei gartref, ac wrth edrych yn ôl cydnebydd yntau ddylanwad y pregethwr ar ei ddelfrydau a gwneuthuriad ei garitor. Peth personol yw'r cof, ac ymhob atgof sy gennym am bersonoliaeth arall y mae rhywbeth ohonom ni ein hunain yn mynnu dod i mewn. Y mae nodweddion ein cymeriad yn dylanwadu ar ein hatgofion.

Oddiar farw Mr. Rees aeth heibio dair blynedd ar ddeg a hanner. Bydd llawer yma heno'n cofio'r dorf o gyfeillion ar Orffennaf 20, 1934 wrth fedd agored ym mynwent Capel y Bryn—ym mro ei febyd, nid pell o'r Ddolgranod honno lle y gwelodd olau'r dydd am y tro cyntaf ryw 69 o flynyddoedd cyn hynny.

Perthynai iddo gydol ei fywyd gyfran helaeth o ysbryd antur y *pioneer*. Daeth hynny'n amlwg yn ei flynyddoedd tyner. Yn bymtheg oed, fel llawer un arall o fechgyn Sir Aberteifi, atebodd yntau'r alwad i fynd i'r môr. Aeth allan ar long hwyliau o borthladd Abertawe, a threuliodd dair blynedd o flaen y mast. Hwyliodd i fannau pellennig y ddaear, ac yr oedd ystor ei hanesion am ddigwyddiadau'r blynyddoedd hyn yn ddiddorol—weithiau'n gyffrous. Bu'r blynyddoedd hyn yn fawr eu dylanwad arno. Bywyd rwff ydoedd bywyd y môr—bywyd a'i demtasiynau'n fawr, yn enwedig yn y dyddiau hynny. Rhoddwyd iddo gyfle i brofi "rhuddin ei gymeriad". Nid yn unig y bu'r blynyddoedd hyn yn fantais i ledaenu ei wybodaeth am y byd, ynddynt hefyd dyfnhawyd ei brofiad ysbrydol. Hynny hwyrach a roes nerth i'w benderfyniad yn Glasgow i gefnu ar fywyd y môr.

Daeth yn ôl i'w gartref i ddysgu crefft ei dad fel dilledydd. Arweiniodd y grefft honno ef i ardal boblog Aberdâr. Yno yr ymbriododd. Yno hefyd y deffrowyd ei ddiddordeb ym mhroblemau cymdeithasol gwerin ei wlad, a gwelir ef yn awr ymhlith y *pioneers* ar lwyfannau'r Blaid Lafur yn ardaloedd gweithfaol Sir Forgannwg. Yr oedd ganddo huodledd naturiol : enillai glust y dorf yn union. Proffwydai Keir Hardie am ddyfodol disglair iddo ymhlith arweinwyr y mudiad yn y Senedd ac yn y wlad. Ond nid felly dueddiadau David Gwenog Rees. Gweinidogaeth yr Efengyl, dyna'i faes ef. Nodyn pennaf ei genadwri oedd *Christian Socialism*. Yn ei bregethu ar ddyledswyddau cymdeithasol dilynwyr Crist oedd ei bwyslais.

Hanner can mlynedd yn ôl dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Nhreorci a Chlydach Vale. Symudodd ym mhen pum mlynedd i Benybont ar Ogwr, gan ofalu am y ddiadell yn y Wig yn ystod blwyddyn gyntaf ei weinidogaeth yno. Nid yn y pulpud yn unig y clywyd ei lais yn ystod y blynyddoedd hyn ond hefyd ar gonglau heolydd gwahanol bentrefi cymoedd Rhondda a Garw. Gwnaeth lawer o ddyledswyddau cyhoeddus yn ardal Penybont. Oddiyno yn 1912 daeth i fugeilio cynulleidfa Gellionnen a'r Graig am ddeunaw mlynedd, a gŵyr ei gydnabod iddo argraffu ei ddylanwad ar feddwl y Cwm.

Cofir yma am ei iechyd yn torri i lawr, ac yntau'n gorfod cymryd trip ar y môr i Balesteina a'r Aifft. Adroddai'n fynych un o helyntion y fordaith honno. Ym mhorthladd Alecsandria gwelodd drwy'r *porthole* long, a'i henw mewn llythrennau breision—Iolo Morganwg. Dawnsiodd Mr. Rees ar lawr y cabin, a gofynnodd cyd-deithiwr o Sais iddo beth oedd y rheswm am ei orfoledd gwyllt. Dywedodd yntau'r hanes am saer maen tlawd o Fro Morgannwg a enillodd drwy ei ymdrechion dyfal ei hun safle uchel ym myd gwybodaeth. Dyna arwr Mr. Rees, ac y mae llawer o hanes Iolo hefyd yn wir am ei edmygydd. Gwnaeth ddefnydd o'r dalent a roddwyd iddo.

Darllenodd yn eang : ni cheisiodd fod yn *specialist* mewn un maes ond yr oedd ganddo wybodaeth eang o lawer o feysydd. Ni ofynnwyd iddo gwestiwn erioed heb gael ganddo ateb sylweddol. Cofiwn am ei ddarlithiau, am ei wasanaeth i'w enwad fel cenhadwr.

Os galwyd y gweithiwr adref, dengys y winllan pa fath oedd ei waith. Distawodd sŵn ei droed ar y palmant. Ni welwn eto ei ffurf gefnsyth yn tynnu at y capel. Ond erys ei goffadwriaeth.

Ac yn ein calonnau ninnau hefyd erys y goffadwriaeth am y ddau fachgen annwyl a gollodd eu bywydau yn y rhyfel blin. Ffrindiau yn eu bywyd, cyd-chwareuwyr yn yr ysgol, ar y parc, cyd-addolwyr yn y capel—o'r dydd heddiw bydd eu henwau gyda'i gilydd yn gerfiedig ar fur y capel i draethu eu hanes wrth y cenedlaethau sydd i ddod.

Gwelais hwy yn tyfu ym mlynyddoedd eu bachgendod. Bum lawer awr yn eu cwmni. O'm dosbarth yn yr Ysgol Sul y galwyd hwy i wasanaeth y lluoedd arfog. Cofiaf fel petai ddoe am eu mynd y tro cyntaf. Yr oedd ynddynt debygrwydd neilltuol. Dau o'r un anian oeddynt—tawel, mwyn, chwareugar, dau fachgen cysidrol o anghenion pobl eraill, heb rith o hunanoldeb na choeg falchter yn cael lle yn eu calonnau didwyll. Oes, y mae gennyf yn fy nghof heno lawer enghraifft o nodweddion eu ffordd o fyw.

A oes rhywbeth mwy prydferth mewn bywyd na'r anwyldeb cysegredig hwnnw sy'n clymu teuluoedd wrth ei gilydd, tad a mam brawd a chwaer? A ŵyr am le'r bechgyn hyn yng nghalon eu

teuluoedd, fe ŵyr am un o'r pethau prydferthaf ym mywyd dyn. Gwelais i hyn yng nghartref Ken ac yng nghartref Vernon. Dyna faint yr archoll, a dyna ffynhonnell y cysur sy'n meddyginiaethu. A dreuliodd amser ar yr aelwyd ym Morgan Street fe ŵyr am ddyfnder y pryder ac am dynerwch y cysylltiadau. A gellir dweud yr un peth am gartref Vernon yn Nhrebanos ac yn Faraday Road. Cofiaf am gystudd angeuol ei fam ac am ei gofal hi amdano, ac am y berthynas rhyngddo â'i dad, rhyw gyfeillach, rhyw bartneriaeth sy'n rhy ddwfn i'w fynegi mewn geiriau. Cofiaf am ddyddiau ei garwriaeth a'i briodas, am ei wraig ifanc cyn geni ei phlentyn yn derbyn y newydd trist iddo fyned allan ac ni chyrhaeddodd yn ôl.

Amdanynt ill dau, Ken a Vernon, y mae llawer iawn o atgofion annwyl yn dod i mi heno. Y mae llawer ymgom galon wrth galon yn y dosbarth Ysgol Sul yn dod yn ôl yn bethau byw iawn. Wrth gwrs, fel y mwyafrif ohonom, ar adegau yr oedd ganddynt eu planiau eu hunain, a dewisent gilio'r prydiau hynny o'r Ysgol Sul. Peth rhwydd iawn iddynt oedd cael yr esgus angenrheidiol. Pan ddeuai'r athro ar brynhawn Sul heibio'r Cross a'u gweld yno, y cyfarch arferol fyddai "Ysgol Sul, boys"—ond deuai potel o foddion o boced Ken, a rhaid wrth gwmni Vernon ar y daith i ddilifro'r moddion i ryw glaf. Gorfu ar y pegethwr yn fynych gydnabod eu dyledswydd hwy mor bwysig a'i ddyledswydd yntau, wedi'r cyfan.

Un peth y carwn gyfeirio ato. Yn y dosbarth ysgol Sul penderfynasom wedi wythnosau cynta'r Rhyfel drefnu Comforts Fund—Comforts Fund ar gyfer y clas, oherwydd yr oedd dau neu dri eisoes yn y fyddin, ac yr oedd yn amlwg y byddai un ar ôl y llall yn cael eu galw i'r fyddin yng nghwrs amser. Cymrodd y ddau ffrind, Vernon a Ken, arnynt i drefnu pethau, a chawsant gymorth parod y merched o glas Miss Anne Morgan y pryd hynny. Cofir am y Sul hwnnw cyn i Ken fynd i Aldershot. Ef oedd y trysorydd, a'r prynhawn hwnnw cymrwyd y gofal gan Veron ac Eunice Bowen, y pryd hynny. Wel—dyna ddechrau Comforts Fund Gellionnen a'r Graig. Rhai wythnosau'n ddiweddarach dechreuodd y chwiorydd a'u cynorthwywyr o blith y dynion sefydlu'r Fund fwy, y Fund a fu mor hael ei chymwynasau yn ystod y blynyddoedd erchyll. Llifodd yr afon fach i fewn i'r afon fwy.

Cofiaf am yr alwad i'r lluoedd yn dod i'r ddau. Gwelsom eu sedd yn wag yn y capel, ond byddent yno pan ddeuent o bryd i bryd ar *leave*. Cofiaf am y noson honno cyn yr ymadawodd Ken am y Dwyrain Pell. Gŵyr rhai ohonom am ei deimladau. Nid dyma'r lle i sôn amdanynt. Cofiwn am lawer peth bach a wnaeth er mwyn cuddio'r gwirionedd oddiwrth ei fam. Darllenasom ninnau wedi hynny am gwymp Singapore, a chofiwn am y misoedd maith pryderus heb un gair yn dod oddiwrtho. Bu'r pryder yn fwy nag a allai'r fam ei gario.

Cofiaf am yr oedfa honno ar ben y mynydd—Vernon yn y cwmni yn cydgerdded â ni i'r groesffordd, yntau'n dweud yn dawel y byddai ganddo *leave* hir yn fuan, ninnau'n gwybod trwy hynny ei fod yn wynebu peryglon cyrchoedd yr awyr. Ym mhen rhai dyddiau y newydd trist yn dod fod ei awyren ar goll.

Aeth llawer o'n bechgyn a rhai o'n merched hefyd i'r lleuoedd arfog. Diolchwn am y gadwraeth a fu arnynt. Collasom ddau fachgen annwyl. Gwyddom fod dwylo caruaidd yn nhir estron wedi daearu gweddillion un ohonynt—ond i'r llall nid oes fedd ond bedd y môr, a ninnau'n gwybod heddiw mai ei weithred ddiwethaf ydoedd estyn cymwynas i gyfaill.

Nid oes angen amlhau geiriau, ond gŵyr pob un ohonom pa le y mae ein dyledswydd. A glywch yr alwad heno i fod yn fwy prysur nag erioed ynghylch creu byd lle ni bydd galw am ddinistrio blodau'r oes, a lle ni ddysgir rhyfela mwy.

Tangnefedd a fyddo gyda'r ddau gyfaill mewn cymdeithas agosach a'u Duw.

Priodas.

MAWRTH 24, yn yr Hen Dy Cwrdd, Trecynon, Aberdâr, RACHEL WILLIAMS, 22, Hirwaun Road, Trecynon a LEWIS D. KENT. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Aerwyn Jones, D. O. Davies ac E. R. Dennis. Siwrne dda iddynt yw dymuniad eu cyfeillion.

Marwgofion.

MAWRTH 8, yn 74 mlwydd oed, bu farw THOMAS EVANS, Fronddu, Cwrtnewydd. Yn wan ei iechyd ers blynyddoedd, yr oedd yn amlwg yn ddiweddar fod y terfyn yn agos. Brawd hawddgar a chyfaill cywir ydoedd, ac un o'r aelodau anwylaf yng Nghapel y Bryn, lle'r oedd yn flaenor. Afiechyd yn unig a barai iddo fod yn absennol o'r gwasanaethau. Saer coed ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ymddiriedid ynddo am waith da a gonest. Amgylchynnid ei gartref â naws hyfryd, a phleserus bob amser ydoedd mynd yno. Yn yr angladd yng Nghapel y Bryn y dydd Gwener dilynol gwasanaethwyd gan y Parchedigion S. E. Bowen, S. Thomas, Lewis Williams, T. Oswald Williams, a S. Morgan. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ôl ei weddw, dau fab, dwy ferch, ac wyrion. Cydymdeimlir â hwy yn eu galar.

MAWRTH 29, yn 47 mlwydd oed, DAVID DANIEL JONES, 55, Salisbury Road, Maesteg. Yr oedd yn iach bore dydd ei farwolaeth, ond yr oedd wedi ymadael â'r fuchedd hon cyn nos. Ail fab y diweddar Mr. a Mrs. Evan Jones, Aldergate, Felinfach ydoedd, ac yn *Cashier* yn y Lloyds Bank

ym Maesteg. Meddai ar amryw o elfennau cymwys i'w waith fel ariannwr. Yr oedd ei agwedd radlawn a'i foesgarwch yn ei wneud yn un hoffus, a diau y byddai dyfodol gobeithiol iddo. Wele obeithion ei bobl wedi eu siomi, a chaled yw hynny. Gadawodd briod, dau fab, tri brawd, ac un chwaer mewn galar dwys. Gosodwyd ei weddillion yng nghladdfa gyhoeddus Maesteg. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Geraint Owen, Bethania, Maesteg ; Ben Jones, Calfaria, Maesteg a Lewis Williams, Rhydygwin. Perthynai i Gymdeithas y Meisiwniaid, a chyflawnwyd eu gwasanaeth claddu hwy ar lan y bedd gan y Parch. Eden Davies, Ficer, Garth, Maesteg.

Ebrill 1, bu farw Mrs. M. THOMAS, 24, Dumfries Street, Treorci, yn 81 mlwydd oed. Gweddw y diweddar Mr. George Thomas, A.C. ydoedd, ac un o aelodau hynaf Capel Glanrhondda. Llednais a thawel iawn ydoedd hi, a'i charedigrwydd bron yn ddihareb. Byddai llond tŷ o groeso bob amser yn aros ei chyfeillion, ac ni welwyd gwg ar ei hwyneb erioed. Byr iawn oedd ei chystudd olaf, a gwelir ei heisiau mewn llawer cyfeiriad. Cyflwynwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r mab a'r ferch, ac i'r perthynasau oll yn eu hiraeth a'u galar. Claddwyd ym mynwent gyhoeddus Treorci y dydd Llun dilynol. a gwasanaethwyd gan y Parchedig E. R. Dennis.

Ebrill 3, yn 79 mlwydd oed, WILLIAM JONES, Rhydygwin, Felinfach. Collodd ei unig chwaer amryw flynyddoedd yn ôl, ac wrtho'i hun y bu yn byw oddiar hynny. Dechreuodd ei iechyd waelu, a symudodd i letya gyda'i nai a'i nith, sef Mr. Thomas W. Jones a Miss C. A. Jones, Aldergate, Felinfach. Cafodd yma dynerwch ac ymgeledd, ac yr oedd ei iechyd wedi gwella llawer. Elai oddiamgylch, a galwai yn nhŷ cymydog bob dydd ; gwnaeth hynny bore dydd ei farwolaeth, ond cyn iddo gael amser i ddweud nemawr o eiriau bu farw. Yn nyddiau cynnar ei fywyd yr oedd yn gyson yn y gwasanaeth yn Rhydygwin ac yn ffyddlon gyda'r Ysgol Sul. Cymerai ddiddordeb mawr yng ngwaith yr Ysgol Sul. Deallai yr Ysgrythur, ac ar ddydd cymanfa medrai roddi atebiad cywir i'r holwr pan fyddai pawb wedi methu. Claddwyd ym mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. T. Lloyd Jones, Tynygwndwn. Gadawodd mewn galar dri nai, un nith, dau gefnder, un cyfnither, ac amryw berthynasau eraill.

Ebrill 7, yn 77 mlwydd oed, bu farw Mrs. SARAH THOMAS, Llwyn Onn, Llansawel, gynt o Castell House, Llanybydder. Er fod iddi gylch eang o gyfeillion, gwraig i'w haelwyd oedd hon, lle y gwnaeth ei rhan yn anrhydeddus. Yr oedd yn siriol bob amser heb byth yr un gwg ar ei hwyneb. Er i lawer profedigaeth ei goddiweddyd ni phallodd ei sirioldeb. Y dydd Sadwrn dilynol gosodwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Galltyplaca, lle y gorwedd yn barod dri o'i phlant. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei gweinidog, y Parchedig S. E. Bowen, gyda chynorthwy'r Parchedigion T. Glenville Rees, Clifford Evans, Daniel Thomas, Lewis Williams, Stephen Jones, a T. Oswald Williams. Gadawodd mewn galar dwys o'i cholli ei phriod, yntau mewn gwth o oedran, pump o feibion, ac un ferch, ac wyrion. Nodded y Nef hwy i gyd yn eu galar.

Er mawr siom i gymdogaeth gyfan, bu farw ar Fai 5ed, ym Mhenlon, Penrhiwllan, Llandysul, ELIZABETH JONES yn 67 mlwydd oed. Aelod o deulu hynaws Pwllffein ydoedd, ac wedi ennill serch dwfn cylch mawr o gyfeillion a chymdogion drwy gydol ei bywyd caredig ac haelionus. "Hon oedd yn llawn o weithredoedd da ac elusenau." Ei lletygarwch oedd dywysogaidd. Cofiai bob amser am y cleifion a'r anghennus, a charai ei theulu gyda dwyster a dealltwriaeth ddoeth. Gwag iawn fydd ei lle yn eglwys Pantydefaid. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w phriod a'r mab a'r perthynasau. Ar ddydd ei angladd daeth torf fawr ynghyd i Bantydefaid. Gwasanaethwyd yn ei chartref gan y Parch. D. M. Davies a'r Parch. D. A. Williams, yn y capel pregethwyd gan y gweinidog gyda chynorthwy y Parch. T. O. Williams a'r Parch. E. O. Jenkins. Ar lan y bedd bu y Parch. David Rhydderch yn gwasanaethu. Mrs. Evans oedd a gofal yr Organ. "Gwyn eu byd y rhai pur o galon : canys hwy a welant Dduw."

Mai 13, bu farw yn St. Annes-on-Sea, ELIZABETH HOWARTH, gynt o Felinfach, Dyffryn Aeron. Cofir amdani'n well o dan yr enw Elizabeth Howells, Dolbeudy. Yn ferch ifanc, bu yn ysgolfeistres boblogaidd yn ysgol Felinfach. Priododd â William Howarth a symudodd i ardal Manchester. Tra yno ymaelododd yn Hen Gapel, Dukinfield ; oddi yno aeth i fyw i St. Annes-on-Sea. Ni feiddiodd ddod yn ôl, hyd yn oed am dro, i'w hen gartref, gymaint oedd ei hiraeth am yr hen wlad. Carai drwy ei hoes Gapel Rhydygwin yn angherddol. Claddwyd ei gweddillion marwol yn Cemetery y dref Mai 18, a'r Parch. Herbert Crabtree yn gwasanaethu. Dynes ddidwyll, Undodwraig oleuedig a selog, a glân ei chymeriad. Huned mewn hedd. E.G.E.

Nodion yr Eglwysi.

GALLTYPLACA.—Rhoddwyr y tê blynyddol eleni oedd teulu caredig Dolaugwyrddon, a dydd Gwener, Ebrill 30, llanwyd y lle â chyfeillion o bell ac agos. Cafodd y chwiorydd wrth y byrddau amser prysur, ac yr oedd yno ddigon o'r danteithion gorau ar gyfer pawb. Yn yr hwyr, a'r capel yn llawn, cafwyd cyngerdd da, a Mr. Jones, ysgolfeistr Llanwnen, yn arwain. Diolchwyd gan y gweinidog i bawb a gymrodd ran ac yn gynnes iawn i Mr. a Mrs. Williams, Dolaugwyrddon am eu caredigrwydd.

LLWYNRHYDOWEN.—Hwyr Gwener y Groglith cynhaliwyd Sosial flynyddol yr Ysgol Sul, a daeth mwy nag arfer o'r aelodau ynghyd. Yr oedd y neuadd bron yn llawn, a'r hwyl yn uchel. Gofalodd y chwiorydd am gyflenwad o bethau da i'w bwyta, a gwelwyd basgedeidiau yn weddill. Cyflwynodd yr arolygydd am y llynedd, Miss Myra Parry, lyfrau gwobrwyon i'r plant ar ran yr Ysgol Sul. Rhoddodd hefyd ar ei thraul ei hun anrheg i bob plentyn. Noson i'w chofio'n hir ydoedd, a diolch i bawb am eu cyfran i'w gwneud felly.

ABERYSTWYTH.—Dymunwn longyfarch Mr. W. A. Jones, B.Sc. ar gael ohono ei ddewis yn un o *staff* y *National Agricultural Advisory Service for Wales* sydd â'i sedd yn Nhrawscoed, rhyw wyth milltir oddiyma. Dymunwn hefyd estyn croeso cynnes iddo ef a'i deulu yn ôl i Aberystwyth, a gobeithiwn gael eu cwmni yn weddol aml yn y Capel Bach yn y dyfodol. — Yn rhannol fel canlyniad i anogaeth y Golygydd yn rhifyn Ionor o'r YMOFYNNYDD gwnaethom gasgliad o £2 : 16 : 0 at y *Friends Relief Service* tua diwedd Mawrth, ac at hyn rhoddodd y Crynwyr sydd yn awr yn cwrdd yn y capel bob bore Sul am ddeg o'r gloch, 14s. Felly bu'r ysgrifennydd yn alluog i anfon £3 : 10 : 0 at yr achos hwn. Hyderwn yn fawr i'n heglwysi eraill yng Nghymru, a Lloegr hefyd o ran hynny, wneud yr un peth, er ceisio lliniaru rhyw ychydig ar gyflwr enbyd Ewrop ar hyn o bryd.

Cyrddau'r Pasg.

CYNHALIWYD yng Nghribyn ar Fawrth 30 a 31. Cytunwyd gan bawb a fu yno inni gael cyrddau neilltuol o dda. 'Roedd yno gynulliadau mawr, er cynddrwg y tywydd; canu hwylus; a phregethau grymus ac amserol, y Parchedigion D. Jacob Dafis, J. Marles Thomas, J. D. Jones ac E. O. Jenkins yn pregethu. Cymrwyd y rhannau arweiniol gan y Parchedigion Lewis Williams, T. Oswald Williams, ac S. E. Bowen. Ar derfyn y gyfres datganodd y Parchedig Brifathro J. Islan Jones ddiolch y Gymdeithas a'r gynulleidfa i bawb a fu'n gwasanaethu, a diolchodd y Parchedig S. E. Bowen i'r chwiorydd am drefnu lluniaeth yn ystod y dydd ac i gynulleidfa Cribyn am groesawu'r cyrddau yno.

COFNODION Y PWYLLGOR CYFFREDINOL.

CYFARFU yn y Cribyn ar Fawrth 31, y llywydd, y Parchedig J. Marles Thomas, yn y gadair.

Penderfynwyd gofyn i'r eglwysi ac unigolion gwrdd â'r draul i osod maen ac ysgrif arno i nodi'r man lle yr oedd Capel Tomos Glyn Cothi.

Derbyniwyd gwahoddiad o Rydygwin i gynnal y Cyfarfodydd Blynyddol yno ar adeg dathlu canmlwyddiant codi'r capel.

Enwyd swyddogion i'w hapwyntio yn y Pwyllgor Blynyddol. Ail-ethol yr ysgrifennydd a'r trysorydd, y Prif-athro J. Islan Jones yn llywydd, Miss S. Davies, B.A., Caeronnen, yn is-lywydd.

Mynegodd golygydd YR YMOI YNNYDD y byddai'n ymddiswyddo ar ddiwedd y flwyddyn. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Ymgynghori ystyried y mater. S. E. BOWEN, *Ysgrifennydd.*

(O ddiffyg gofod, bu raid cadw nodion Cynghrair y Gwragedd, &c., hyd y rhifyn nesaf.)

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul